

Achrediad Gwasanaethau Archifau a Covid-19

Mewn ymateb i ymholiadau, mae partneriaid rhaglen Achredu Gwasanaethau Archifau a'r Pwyllgor Llywodraethu am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgeiswyr a'r rheiny sydd eisoes ag achrediad ynghylch sut y bydd y rhaglen yn ymateb i fesurau iechyd cyhoeddus yn ymwneud â Covid-19. Yn fwy na dim, nid ydym am i Achredu fod yn bryder ychwanegol arnoch ar adeg pan fo rheoli a chynllunio gwasanaethau archifau dan gryn straen.

Cwtogi a chau gwasanaethau mewn amgylchiadau eithriadol

Rydym yn cydnabod bod Gwasanaethau Archifau Achrededig eisoes wedi gorfod cau am gyfnod o dan arweiniad iechyd cyhoeddus, neu o ganlyniad i reoli risg mewn sefydliadau unigol. Rydym hefyd wedi cael ymholiadau gan wasanaethau sy'n cynllunio wrth gefn ar gyfer senarios cau tymor hir. Os bydd gwasanaethau yn ailagor ar ôl cyfnod cau, mae'n debygol y bydd angen iddynt leihau'r hyn y gallant ei gynnig os na all staff ddod i'r gwaith oherwydd pryderon iechyd neu gyfrifoldebau gofalu, neu os cânt eu hadleoli gan sefydliadau rhiant, ac er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol diogel wrth barchu sefyllfa gwasanaethau unigol. Rydym am sicrhau pawb sydd ag achrediad ein bod yn cydnabod bod yr amgylchiadau presennol yn eithriadol, ac na fydd llai o wasanaeth oherwydd y pandemig yn effeithio ar statws Achredu. Gan y gallai hyn fod am gyfnod hir, dylai gwasanaethau gynllunio i adolygu'r gwasanaeth llai yn rheolaidd i ddeall ei effaith ar randdeiliaid.

Trefniadau ar gyfer asesu a cheisiadau newydd

Er bod y rhaglen yn dal ar agor, mae ystyriaethau teithio'n ddiogel, safleoedd ar gau a goblygiadau newid busnes yn sgil sefyllfa Covid-19 yn golygu bod y rhaglen wedi penderfynu na fydd unrhyw geisiadau newydd yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y panel ym mis Tachwedd 2020. Bydd ceisiadau sydd eisoes yn y system yn cael eu symud ymlaen lle bo hynny'n bosibl, ond bydd penderfyniadau'n cael eu gohirio os na ellir cynnal ymweliadau safle hanfodol. Adolygir y sefyllfa erbyn diwedd mis Medi 2020 i benderfynu a ellir derbyn ceisiadau newydd ar gyfer Panel Mawrth 2021 (dyddiad cau ar gyfer cyflwyno 1 Rhagfyr 2020).

Trefniadau ar gyfer dyfarniadau dros-dro, adolygiadau canol-cyfnod ac ailymgeisio

Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar agor ar gyfer adolygiadau a drefnwyd a chadw achrediaid, gan gynnwys ailymgeisiadau llawn gan y rheiny sydd ag achrediad eisoes. Ystyrir effaith y pandemig ar y gwasanaeth fel rhan o'r asesiad. Os yw'r newidiadau yn gofyn am ymweld â'r safle, megis yn achos ceisiadau newydd, efallai y bydd angen gohirio penderfyniadau.

Rydym yn cydnabod y bydd llai o staff mewn rhai gwasanaethau archifau yn ystod y pandemig ac na fydd capasiti o bosibl i gyflawni erbyn y dyddiad cyflwyno a drefnwyd. Rhowch wybod i'ch corff asesu os yw hyn yn berthnasol i chi, gan nodi a oes angen estyniad arnoch yn ystod cyfnod y pandemig. Ni fydd eich statws Achredu yn cael ei effeithio os bydd angen i chi ohirio adolygiad o dan yr amgylchiadau hyn.

Newidiadau posibl i amserlenni yn y dyfodol

Gall rhai o'r darpariaethau uchod olygu y bydd ceisiadau yn cyrraedd yn afreolaidd. Bydd amharu ar adegau hefyd ar gapasiti staff y corff asesu, felly mae'n bosibl y bydd newid yn yr amserlenni asesu a dyfarnu achrediad. Byddwn yn eich hysbysu'n llawn os bydd hynny'n digwydd, ac ni fydd effaith ar eich statws Achredu. Os bydd achosion yn cronni yn ystod neu ar ddiwedd y cyfyngiadau cyfredol, efallai y bydd angen peth amser arnom i'w clirio. Diolch i chi am eich amynedd wrth i ni geisio adfer y gwasanaeth arferol.

14 Mai 2020